Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Tanycastell
Harlech
Gwynedd
Gwynedd
LL46 2SW

210/12/2024

Annwyl Annwen Parri Williams

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Tanycastell yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mai 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad a disgyblion
- gyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- graffu ar waith disgyblion
- graffu ar ddogfennaeth

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi dylanwadu'n briodol ar gryfhau'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i'r argymhellion isod. Maent yn cydnabod bod ychydig o feysydd y gallent barhau i wella.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu ymestynnol Cymraeg disgyblion ar draws y cwricwlwm**

- Rhoddir sylw priodol i hybu medrau llafaredd y disgyblion o'r cychwyn yn y dosbarth meithrin. Ar draws yr ysgol, mae dealltwriaeth y disgyblion yn datblygu'n briodol, ac maent yn ymateb yn dda i'r anogaeth barhaus i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu holl weithgareddau. Mae hyn yn gosod sylfaen addas er mwyn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.
- Mae'r staff wedi rhoi sylw addas i'w trefniadau ar gyfer datblygu medrau darllen y disgyblion.

- Cynhelir sesiynau darllen rheolaidd, ac mae'r gwaith amrywiol hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen a sillafu'r disgyblion.
- Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hybu medrau darllen cynnar y disgyblion ieuengaf.
- Yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae'r athrawon yn darparu amrediad addas o weithgareddau darllen, gan gynnwys elfennau sy'n herio disgyblion i ddatblygu uwch fedrau darllen fel cywain gwybodaeth o wahanol destunau.
- Yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol. Er enghraifft, maent yn creu brawddegau i fynegi stori'r geni.
- Ar frig yr ysgol, mae'r staff yn darparu amrediad buddiol o weithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu hysgrifennu estynedig mewn amrywiol gyd destunau diddorol. Er hyn, ar adegau, mae gorddefnydd o fframweithiau parod yn tueddu i gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion fynegi eu hunain yn llawn.

**Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso a gwella eu gwaith eu hunain yn annibynnol.**

- Mae athrawon yn darparu adborth ddefnyddiol ar lafar yn ystod sesiynau. Gwneir defnydd cyson ar draws yr ysgol o ddulliau sy'n annog disgyblion i feddwl a myfyrio ar eu gwaith.
- Rhoddir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddewis lefel yr her ar gyfer eu gweithgareddau. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth addas o'u cyflawniad presennol a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.
- Yn yr arferion gorau, ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn adlewyrchu'n aeddfed ar eu llwyddiannau, gan anodi'i gwaith i ddangos sut maent wedi ymateb i feini prawf llwyddiant penodol.
- Mae arweinwyr wedi cyflwyno cod marcio cytûn. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gynyddol o sut i gywiro gwallau syml. Mae'r adborth hwn yn dueddol o ganolbwyntio ar sillafu ac atalnodi. At ei gilydd, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig trwy gwella cynnwys gwaith ysgrifenedig.
- Mae athrawon yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o graffwyr i arddangos gwaith disgyblion a thrafod eu cynnydd, er nad yw'r drefn wedi gwreiddio trwy'r ysgol hyd yma.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612219

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol